
# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

## Canllaw



Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**


**Cysylltwch â ni**

Post: Llyfrgell yr Aelodau
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: + 44 (029) 2089 8097

E-bost: **MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk**

Gwefan: **www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-publications-research.htm**

## Pwy yw Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau?

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (GYA) yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a leolir ym Mae Caerdydd.  Rydym yn hollol annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Rydym yn cefnogi'r 60 Aelod Cynulliad yn eu swyddogaethau etholaethol, eu swyddogaethau craffu a'u swyddogaethau deddfwriaethol, drwy ddarparu briffiau ymchwil diduedd, cyngor a gwasanaethau Llyfrgell i gefnogi Aelodau unigol, eu staff, a phwyllgorau'r Cynulliad.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn rhan o Gyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, sy'n darparu cymorth seneddol arbenigol i Aelodau er mwyn sicrhau bod busnes y Cynulliad yn cael ei gyflawni mewn modd effeithlon ac effeithiol. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn cynnwys Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth, Gwasanaeth y Pwyllgorau, a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

Mae gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau tua 39 aelod o staff ymchwil a staff llyfrgell,  gan  gynnwys:

- tri thîm ymchwil sy'n cynnig cyngor arbenigol mewn meysydd polisi penodol
- tîm ymchwil sy'n cynnig gwybodaeth ariannol ac ystadegol arbenigol
- Llyfrgell yr Aelodau, sy'n cynnig gwasanaethau gwybodaeth a chyfeirio
- swyddfa ym Mrwsel sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth ar faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd.

## Sut yr ydym yn cefnogi Aelodau'r Cynulliad?

- Drwy ddarparu briffiau ymchwil i gefnogi Aelodau'r Cynulliad yn eu gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi
- Drwy ateb ymholiadau sy'n ymwneud â gwaith etholaethol neu fusnes yn y Cyfarfodydd Llawn neu'r pwyllgorau fel rhan o'n gwasanaeth ymholi cyfrinachol a diduedd
- Drwy ddarparu cefnogaeth i Aelodau'r Cynulliad er mwyn datblygu a chyflwyno cynigion am ddeddfwriaeth
- Drwy gyhoeddi amrywiaeth o ymchwil ragweithiol er mwyn cyfrannu at ddadl agored a gwybodus


AGORWYD GAN EI MAWRHYDI
ENHINES
OPENED BY HER MAJESTY THE
1·3·2006

## Beth yr ydym yn ei gyhoeddi?

Caiff ein holl gyhoeddiadau eu creu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn bennaf, ond lle bo modd, byddwn hefyd yn eu cyhoeddi ar ein **gwefan**. Gwnawn ein gorau i'w darparu ar ffurfiau eraill ar gais. Sylwer nad yw cynnwys y briffiau o angenrheidrwydd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir wedi'r dyddiad cyhoeddi.

Mae ein **Papurau Ymchwil** yn ymdrin â phynciau sydd o ddiddordeb cyfredol yn y Cynulliad, neu yn darparu brîff rheolaidd ar bynciau penodol, e.e. datblygiad deddfwriaeth neu broffil etholaethol. Maent yn anelu at fod yn wleidyddol ddiduedd ac yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol yn ogystal ag ystod barn ar bob testun a drafodir.

Yn fras, mae ein papurau ymchwil yn ymdrin â'r pynciau a ganlyn:

- Y Cynulliad, Etholaethau a Llywodraethu
- Cyllid a Chyllidebau
- Diwylliant, Addysg a Chydraddoldeb
- Datblygu Economaidd, Trafnidiaeth a Chynaliadwyedd
- Ewrop
- Iechyd, Lles a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Llywodraeth y DU a'r Broses Ddeddfu

Mae ein canllawiau **Hysbysiadau Hwylus** yn cynnig cyflwyniad byr a chryno i amrywiaeth o brosesau a chysyniadau. Mae canllawiau ar gael yn y meysydd canlynol:

- Y Cynulliad, Etholaethau a Llywodraethu
- Cyllid a Chyllidebau
- Datblygu Economaidd, Trafnidiaeth a Chynaliadwyedd (yn cynnwys Cynllunio)
- Ewrop

Mae **Papurau byr** ar gael ar nifer o bynciau sydd o ddiddordeb i Aelodau'r Cynulliad. Mae pob brîff yn cynnwys cyflwyniad cryno i'r pwnc, sy'n ddwy dudalen o hyd, yn ogystal â linciau i ddogfennau allweddol.

## Pa wasanaethau monitro yr ydym yn eu darparu?

Rydym yn darparu nifer o wasanaethau sy'n monitro busnes y Cynulliad, deddfwriaeth, a busnes Senedd y DU perthnasol ar ein **gwefan**.

Mae'r **Hysbysiad Busnes** yn cynnwys manylion am yr holl Gyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau ar gyfer yr wythnos bresennol a'r wythnos sydd i ddod.  Mae hefyd yn darparu mynediad at y busnes diweddaraf a gyflwynwyd neu a osodwyd gerbron y Cynulliad, yn cynnwys deddfwriaeth.

Mae **Datblygiad Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a Mesurau** yn darparu crynodeb y caiff ei ddiweddaru'n gyson o bob Mesur a Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) y Cynulliad, ac yn cynnwys linciau at ddogfennau perthnasol a rhagor o wybodaeth esboniadol.

Mae **Nodiadau Tracio Pwerau'r Cynulliad** yn darparu cofnod diweddar o welliannau arfaethedig a gwelliannau a basiwyd, i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym hefyd yn darparu fersiwn diweddar o **Atodlen 5** (fel y'i diwygiwyd).

Mae **Datblygiad ymchwiliadau Pwyllgorau Craffu** yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru ar ddatblygiad ymchwiliadau cyfredol ac ymchwiliadau wedi'u cwblhau.



Mae **Busnes San Steffan** yn dwyn sylw at fusnes perthnasol Senedd y Deyrnas Unedig am yr wythnos i ddod, gan gynnwys mesurau'r DU sy'n arwyddocaol i Gymru, dadleuon Aelodau Seneddol Cymru a gweithgareddau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig.

Mae **Rhaglen Deddfwriaethol Llywodraeth y DU** yn olrhain hynt Mesurau Seneddol a nodwyd fel rhai'n cynnwys pwerau 'fframwaith' (i wneud Mesurau) ar gyfer Cymru a/neu ddarpariaethau i Gymru.

Mae'r gwasanaeth **Ymwybyddiaeth Gyfredol** yn dwyn ynghyd newyddion, deunydd ymchwil a chyhoeddiadau a fydd ar gael yn fuan gan nifer o sefydliadau sydd â diddordeb yn y pynciau dan sylw, a hefyd yn amlygu busnes y Cynulliad.

Mae'r tudalen **Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Datganoli yng Nghymru: Llyfryddiaeth** yn casglu ynghyd rai o'r gweithiau pwysicaf ar oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganoli yng Nghymru hyd yma.



## Llyfrgell yr Aelodau

Mae'r Llyfrgell yn darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyfeirio i Aelodau, eu staff a swyddogion. Mae'n cynnig mynediad at gyhoeddiadau'r Cynulliad a chyhoeddiadau swyddogol, ystadegau, deunydd cyfeirio cyffredinol, papurau newydd, cyfnodolion ac adnoddau gwybodaeth electronig. Nid yw'r Llyfrgell yn agored i'r cyhoedd.

## Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sefydlwyd presenoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mrwsel ym mis Tachwedd 2004 gyda'r bwriad o ddarparu gwybodaeth gynnar i Aelodau'r Cynulliad am faterion yr Undeb Ewropeaidd o bwys i Gymru. Lleolir y swyddfa yn Nhŷ Cymru yng nghalon ardal sefydliadau'r UE ym Mrwsel, ochr yn ochr â swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolaethau eraill o Gymru.

## Sut y gallwch chi ein helpu

Er nad ydym yn delio ag ymholiadau gan y cyhoedd, rydym yn croesawu copïau electronig neu argraffedig o gyhoeddiadau newydd, neu gael ein hysbysu am gyhoeddiadau newydd a allai fod o ddiddordeb i'n staff ymchwil.

Rydym yn croesawu sylwadau ar ein cyhoeddiadau, ac mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ymchwilwyr sy'n gweithio mewn meysydd pwnc cyffelyb. Hoffwn hefyd glywed am gynadleddau, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio eraill a allai fod o ddiddordeb i'n staff ymchwil.

Anfonwch eich cyhoeddiadau ar ffurf argraffedig neu electronig at y cyfeiriad ar glawr mewnol y llyfryn hwn.

## Manylion Cyswllt

Dylid nodi nad oes modd i'n hymchwilwyr roi cyngor i'r cyhoedd.

**Kathryn Potter** 029 2089 8038
Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Martin Jennings** 029 2089 8057
Arweinydd Tîm Ymchwil: Cyllid ac Ystadegau yn cynnwys cyllid a chyllidebau'r Cynulliad, cyllid llywodraeth leol, ystadegau cyffredinol, dulliau a ffynonellau.

**Graham Winter** 029 2089 8166
Arweinydd Tîm Ymchwil: Yr Amgylchedd a'r Economi yn cynnwys trafnidiaeth, ynni, cynllunio, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, datblygu gwledig, datblygu cynaliadwy, coedwigaeth a'r Undeb Ewropeaidd.

**Sarah Hatherley** 029 2089 8447
Arweinydd Tîm Ymchwil: Iechyd a Pholisi Cymdeithasol yn cynnwys gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, cyfle cyfartal, plant a phobol ifanc, pobl hyn, cyfiawnder cymdeithasol, adfywio, tai, sector gyhoeddus, diogelwch cymunedol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

**Anne Thomas** 029 2089 8966
Arweinydd Tîm Ymchwil: Addysg, Diwylliant a Llywodraethu yn cynnwys dysgu gydol oes, chwaraeon a hamdden, yr Iaith Gymraeg, llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus a materion cyfansoddiadol.

**Gregg Jones** 00 32 2226 6692
Pennaeth Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth ar faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd.

Tŷ Cymru / Wales House (6ed Llawr)
Rond Point Schuman, 11
B-1030 Bruxelles
Gwlad Belg

**Stephanie Wilson** 029 2089 8629
Pennaeth Llyfrgell yr Aelodau



